




Gweinyddiaeth
Cyfiawnder

Cyfiawnder Agored: y ffordd ymlaen

Cais am Dystiolaeth

Mae'r cais hwn am dystiolaeth yn dechrau ar 9 Awst 2023

Mae'r cais hwn am dystiolaeth yn gorffen ar 31 Hydref 2023



[leave this page blank – back of cover]

Cyfiawnder Agored: y ffordd ymlaen

Cais am Dystiolaeth

2023

Cais am dystiolaeth a gynhyrchwyd gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder.

Ynglŷn â'r cais hwn am dystiolaeth

At:	Pawb sydd â diddordeb, y farnwriaeth, y proffesiwn cyfreithiol, y cyfryngau, academyddion, arbenigwyr y gyfraith a thechnoleg, defnyddwyr llysoedd a thribiwnlysoedd.
Hyd:	O 9/8/23 tan 31/10/23
Ymholiadau (gan gynnwys ceisiadau i gael y papur mewn fformat arall) i:	Open Justice Policy Team Ministry of Justice 102 Petty France London SW1H 9AJ openjusticepolicy@justice.gov.uk
Sut i ymateb:	Anfonwch eich ymateb erbyn 31 Hydref 2023 drwy'r arolwg neu at y Tîm Polisi Cyfiawnder Agored drwy'r cyfeiriad e-bost: openjusticepolicy@justice.gov.uk
Ffyrdd ychwanegol i chi roi eich barn:	Cynhelir cyfres o gyfarfodydd i randdeiliaid hefyd.
Papur ymateb:	Bydd ymateb i'r cais hwn am dystiolaeth yn cael ei gyhoeddi ar ddyddiad i'w gadarnhau.

Cynnwys

Cyfiawnder Agored: y ffordd ymlaen	1
Cais am Dystiolaeth	1
Cyfiawnder Agored: y ffordd ymlaen	3
Cais am Dystiolaeth	3
Ynglŷn â'r cais hwn am dystiolaeth	4
Cynnwys	1
Rhagair	4
Cyflwyniad	5
Cyfiawnder agored	6
Cwestiynau am gyfiawnder agored	7
Rhestrau	8
Cwestiynau am restrau	9
Mynediad i lysoedd a thriwlynlysoedd	11
Cwestiynau am gael mynediad i lysoedd a thriwlynlysoedd	11
Arsylwi o bell a ffrydio byw	12
Cwestiynau am arsylwi o bell a ffrydio byw	13
Darlledu	14
Cwestiynau am ddarlledu	16
Trefn Ynad Sengl (SJP)	17
Cwestiynau am y Weithdrefn Ynad Sengl	18
Cyhoeddi dyfarniadau a sylwadau dedfrydu	19
Cwestiynau am hawl y cyhoedd i weld dyfarniadau	20
Cwestiynau ar aildddefnyddio dyfarniadau'n gyfrifiadurol ar Find Case Law a thrwyddedu:	21
Cwestiynau ar benderfyniadau triwlynlysoedd a gyhoeddwyd ar GOV.UK:	21

Cwestiynau am fynediad y cyhoedd i sylwadau dedfrydu:	22
Mynediad at ddogfennau a gwybodaeth y llys	23
Cwestiynau am fynediad at ddogfennau'r llys	24
Mynediad at ddata ac aildddefnyddio	25
Cwestiynau am fynediad at ddata ac aildddefnyddio	26
Addysg gyfreithiol gyhoeddus	27
Cwestiynau am addysg gyfreithiol gyhoeddus	27
Holiadur	29
Amdanoch chi	35
Manylion cyswllt/Sut i ymateb	36
Cwynion neu sylwadau	36
Copiâu ychwanegol	36
Grwpiau cynrychioliadol	36
Cyfrinachedd	36

[leave this page blank – back of contents page]

Rhagair

Mae cyfiawnder agored yn egwyddor sylfaenol sydd wrth wraidd ein system gyfiawnder ac yn hanfodol i reolaeth y gyfraith – rhaid i gyfiawnder nid yn unig gael ei wneud ond rhaid ei weld yn cael ei wneud. Gellir olrhain ei hanes a'i bwysigrwydd yn y gyfraith i'r Magna Carta. Mae'n egwyddor sy'n caniatáu i'r cyhoedd graffu a deall sut mae'r gyfraith yn gweithio, gan feithrin ymddiriedaeth a hyder yn ein system gyfiawnder.

Ers canrifoedd, mae cyfiawnder agored wedi cael ei ddarparu drwy ddarparu orielau cyhoeddus, sy'n caniatáu i unigolion arsylwi achosion llys wyneb yn wyneb a gweld cyfiawnder yn cael ei weithredu. Mae derbyn y ddarpariaeth hanesyddol hon, ac ychydig o newid i'r ffordd rydym yn darparu cyfiawnder, wedi golygu nad yw cyfiawnder agored wedi bod yn destun llawer o ail-archwilio yn ystod yr ugeinfed ganrif, gyda'r gwerthusiad cyhoeddus diwethaf ar gyfiawnder agored yn cael ei gynnal yn 2012.

Yn y cyfamser, bu lluo o newidiadau i foderneiddio ein system gyfiawnder, yn enwedig cyflwyno'r Rhaglen Ddiwygio £1.3 biliwn a lansiwyd gan Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EF (GLITEF). Mae hyn wedi datgloi'r cyllid ar gyfer technolegau newydd a all foderneiddio'r ffordd yr ydym yn darparu cyfiawnder.

Yn 2020, arweiniodd y pandemig hefyd at newidiadau cyflym, gan fod yn rhaid i adeiladau llys ar draws y wlad gau a chynhaliwyd achosion cyfreithiol bron yn gyfan gwbl drwy dechnolegau fideo a sain. Roedd hyn yn atgyfnerthu'r angen am newid ac yn rhoi cyfle gwych i ni ailasesu a moderneiddio sut gallwn ddarparu cyfiawnder agored drwy harneisio technolegau newydd sydd ar gael yn yr oes fodern.

Mae'r llywodraeth hon wedi ymrwymo i gynnal cyfiawnder agored ac rydym yn parhau i weithredu gwasanaethau a newidiadau newydd sy'n cryfhau craffu a thryloywder yn y system gyfiawnder.

Felly, rydym yn lansio'r cais hwn am dystiolaeth i gael eich barn ar sut y gallwn gefnogi a chryfhau pa mor agored yw ein gwasanaethau llysoedd a thribiwnlysoedd. Gan gydnabod yr amgylchedd cyllidol heriol, bydd yr ymarfer hwn yn ein helpu i dargedu ein hadnoddau prin lle gallant gael yr effaith fwyaf. Os oes gennych ddiddordeb, byddem yn falch iawn o glywed gennych, ac rwy'n eich annog i ymateb. Mae'n bwysig ein bod yn clywed gan amrywiaeth eang o safbwyntiau i lywio strategaeth y llywodraeth yn y dyfodol yn y maes pwysig hwn.

Mike Freer AS

Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol dros Gyfiawnder

Cyflwyniad

Nid ydym wedi cynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar gyfiawnder agored ers 2012. Ers hynny, mae'r system gyfiawnder wedi cael cyfnod o foderneiddio, gyda Rhaglen Ddiwygio GLITEF yn ganolog i'r trawsnewid hwn. Mae digideiddio'r system gyfiawnder yn cyflwyno cyfleoedd a risgiau ar gyfer cyfiawnder agored ac yn codi cwestiynau pwysig ynghylch y cydbwysedd rhwng bod yn agored a phreifatrwydd. Wrth i'r system gyfiawnder foderneiddio, rhaid i ni archwilio sut mae cyfiawnder agored yn parhau i gael ei gynnal, ac ar ben hynny, sicrhau ein bod yn hyrwyddo cyfiawnder agored mewn ffordd a fydd yn bodloni'r disgwyliad cynyddol i gael mynediad at gyfiawnder mewn ffordd fwy modern a digidol.

Yn 2022, dechreuodd y Pwyllgor Dethol ar Gyfiawnder (JSC) ymchwiliad yn edrych ar effeithiau digideiddio ar y llysoedd, y cyfryngau a chyfiawnder agored. Daeth hyn i ben drwy gyhoeddi ei adroddiad – Court Reporting in the Digital Age. Cynhyrchodd adroddiad JSC gyfres o argymhellion yn ymwneud â phynciau fel rhestrau cyhoeddedig, darlledu, arsylwi o bell, mynediad at ddogfennau llys a chyhoeddi dyfarniadau.

Mae cynnwys y cais hwn am dystiolaeth yn cwmpasu llawer o'r materion a godwyd yn adroddiad y JSC; fodd bynnag, rydym wedi ehangu ein ffocws y tu hwnt i adroddiadau'r llys i gynnwys materion cyfiawnder agored sy'n effeithio ar bob aelod o'r cyhoedd. Mae hyn yn cynnwys materion ar draws awdurdodaethau, gwasanaethau GLITEF, o fewn deddfwriaeth, drwy gydol addysg gyfreithiol gyhoeddus, ac o ran mynediad at ddata a gwybodaeth. Rydym yn edrych ar y pynciau hyn gan eu bod yn effeithio ar gyfiawnder agored a thryloywder, ac mae pob un wedi bod drwy gyfnod o newid a moderneiddio dros y degawd diwethaf. Bydd y dystiolaeth a gesglir ar draws y meysydd hyn yn ein helpu i ddatblygu canllawiau newydd, llywio polisi cyfiawnder agored, a gwella datblygiad gwasanaethau nawr ac yn y dyfodol.

Ar ben hynny, rydym am ddefnyddio'r cyfle i ehangu ymgysylltiad y tu hwnt i'n rhanddeiliaid traddodiadol a chasglu cymaint o wybodaeth, cymaint o ddata, a chymaint o safbwyntiau â phosibl. Rydym am glywed gan bob parti sydd â diddordeb, gan gynnwys y farnwriaeth, gweithwyr cyfreithiol proffesiynol, y cyfryngau, busnesau, academyddion, arbenigwyr y gyfraith a thechnoleg a defnyddwyr ein llysoedd a'n tribiwnlysoedd ynghylch sut y credwch y gall y llywodraeth gynnal a chryfhau cyfiawnder agored yn yr oes fodern.

Bydd y cais hwn am dystiolaeth yn rhan o amrywiaeth o ddulliau y byddwn yn eu defnyddio i ymgysylltu â'r cyhoedd ar faterion cyfiawnder agored. Byddwn yn ystyried yr holl dystiolaeth a gyflwynir i'r adolygiad hwn ac o hyn byddwn yn nodi lle gallai ymyrraeth gan y llywodraeth fod yn effeithiol a llywio lle y dylem flaenoriaethu ein hadnoddau cyfyngedig.

Cyfiawnder agored

Mae egwyddor cyfiawnder agored yn seiliedig ar gyfraith gwlad ac Erthygl 6 y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol¹, sy'n datgan y 'bydd gan bawb hawl i wrandawriad teg a chyhoeddus gan driwlynlys cymwys, annibynnol a diduedd a sefydlwyd drwy gyfraith'. Gan fod yr egwyddor yn seiliedig ar gyfraith gyffredin, mae hyn yn caniatáu i'w diffiniad addasu, ac yn rhoi hyblygrwydd i'r farnwriaeth wrth ei defnyddio fesul achos.

Mae'r fframwaith deddfwriaethol cyfiawnder agored yn rhychwantu o leiaf 17 darn o ddeddfwriaeth sylfaenol ac yn dyddio'n ôl i 1925. Mae'r fframwaith deddfwriaethol hwn yn gymysgedd o gyfyngiadau sy'n diogelu hawliau partïon mewn achos, a darpariaethau sy'n galluogi gweithdrefnau i fod yn fwy tryloyw. Mae dau ddarn o ddeddfwriaeth amlwg yn cynnwys Adran 41 Deddf Cyfiawnder Troseddol 1925² sy'n darparu gwaharddiad llwyr ar ffotograffiaeth mewn llysoedd ledled Cymru a Lloegr, ac Adran 9 Deddf Dirmyg Llys 1981³ sy'n gwahardd gwneud recordiadau sain heb awdurdod mewn llysoedd ledled y DU. Er mwyn sicrhau bod cyfiawnder agored yn cael ei gynnal yn yr oes fodern, rydym wedi cyflwyno mesurau deddfwriaethol sy'n ein galluogi i ddatgymhwyso neu osgoi'r gwaharddiadau hyn. Trafodir mesurau o'r fath yn fanylach yn nes ymlaen yn y cais hwn am dystiolaeth, mewn perthynas ag arsylwi o bell, ffrydio byw a darlledu achosion.

Mae'r gofyniad am gyfiawnder agored yn cael ei ddehongli'n wahanol ym mhob math o lys ac yn unol ag amgylchiadau pob achos unigol. Er bod rheolau'r weithdrefn ar gyfer pob awdurdodaeth (sy'n sicrhau cysondeb a bod achosion yn cael eu rheoli'n briodol ac yn gyfiawn) yn sefydlu proses ar gyfer cyfiawnder agored, yn y pen draw mae gan y llysoedd awdurdodaeth gynhenid i benderfynu sut y dylid ei defnyddio. Nid yw egwyddor cyfiawnder agored yn absoliwt ychwaith, a phan fo cyfiawnhad dilys penodol (e.e. i amddiffyn partïon agored i niwed) gellir cynnal achos yn breifat.

Rydym yn gweithio'n rheolaidd gyda'r farnwriaeth ar sut y gallwn gynnal yr egwyddor o gyfiawnder agored ar draws ein llysoedd a'n triwlynlysoedd. Rydym yn gwneud hyn i gydnabod y pwerau annibynnol sydd ganddynt, gan gydnabod bod llawer o benderfyniadau ynghylch achosion llys, fel y ffordd y cânt eu cynnal (o bell, hybrid, neu wyneb yn wyneb), boed cyfyngiadau adrodd yn cael eu gosod a phryd y gall y cyhoedd gael gafael ar ddogfennau llys, yn parhau i fod yn fater o ddisgresiwn barnwrol. Mae'n bwysig deall yr hyn y gellir ei bennu gan bolisi, a'r hyn sy'n fater i'r farnwriaeth yn y pen draw, wrth edrych ar sut y gall y llywodraeth wella cyfiawnder agored.

¹ Deddf Hawliau Dynol 1998 (legislation.gov.uk)

² Deddf Cyfiawnder Troseddol 1925 (legislation.gov.uk)

³ Deddf Dirmyg Llys 1981 (legislation.gov.uk)

Felly, rydym yn gofyn am eich barn i fesur ymwybyddiaeth a dealltwriaeth y cyhoedd o'r egwyddor cyfiawnder agored a'r heriau a'r cyfleoedd presennol ar gyfer cyfiawnder agored. Rydym hefyd yn gofyn am farn ar ble y gallwn gyfeirio polisi presennol a pholisïau'r dyfodol a sut i harneisio technoleg fodern i wella a chryfhau cyfiawnder agored.

Cwestiynau am gyfiawnder agored

1. Eglurwch beth mae egwyddor cyfiawnder agored yn ei olygu yn eich barn chi.
2. Eglurwch a ydych chi'n teimlo bod pwerau barnwrol annibynnol yn cael eu gwneud yn glir i'r cyhoedd, ac unrhyw farn arall sydd gennych am y pwerau hyn.
3. Beth yw eich barn am ba mor agored a thryloyw yw'r system gyfiawnder ar hyn o bryd?
4. Beth yw'r ffordd orau i ni barhau i ymgysylltu â'r cyhoedd ac arbenigwyr ar ddatblygu a gweithredu polisi cyfiawnder agored ar ôl i'r cais hwn am dystiolaeth ddod i ben?
5. A oes materion polisi penodol o fewn cyfiawnder agored y dylem roi blaenoriaeth i ymgysylltu â'r cyhoedd yn eu cylch?

Rhestrau

Mae rhestrau llysoedd a thribiwnlysoedd a gyhoeddir yn hanfodol ar gyfer cyfiawnder agored gan fod arsylwyr yn dibynnu arnynt i wybod pa achosion sy'n cael eu penderfynu a pha bryd y mae dyfarniadau i fod i gael eu rhoi. Yn draddodiadol, roedd y rhestrau'n cael eu gosod ar hysbysfyrddau y tu mewn i adeiladau'r llys ac maent wedi bod ar gael ar-lein ers nifer o flynyddoedd.

Mae GLITEF yn cefnogi'r egwyddor o gyfiawnder agored yn ymarferol drwy gyhoeddi a rhannu rhestrau. Mae'r rheolau sy'n rheoli rhestrau wedi'u nodi yn y rheolau gweithdrefn⁴ a deddfwriaeth. Gwneir newidiadau i'r rheolau hyn drwy'r pwyllgorau rheolau gweithdrefnol.

Ym mis Gorffennaf 2022, lansiodd GLITEF gam cyntaf ei wasanaeth Gwrandawiadau Llys a Thribiwnlysoedd newydd⁵ ar GOV.UK, fel rhan o'i Raglen Ddiwygio. Bydd y gwasanaeth ar-lein newydd hwn yn symleiddio'r ffordd y mae'r cyfryngau a'r cyhoedd yn dod o hyd i wybodaeth am wrandawiadau llys a thribiwnlys sydd ar y gweill, drwy gyhoeddi pob rhestr ar draws Cymru a Lloegr ar-lein, mewn un lle.

Gall unrhyw un ddefnyddio'r gwasanaeth newydd hwn am ddim, ond bydd GLITEF yn caniatáu i ddefnyddwyr proffesiynol, gan gynnwys aelodau achrededig o'r cyfryngau, weld rhestrau nad ydynt ar gael i'r cyhoedd (a elwir yn 'restr cyfryngau'), gan gynnwys gwybodaeth ychwanegol fel cyfeiriad y diffynnydd a chod y trosedd. Ar hyn o bryd, gall y defnyddwyr proffesiynol hyn danysgrifio i dderbyn rhestrau drwy e-bost mewn fformat PDF, ond bydd CaTH hefyd yn eu cynnig drwy API, JSON a PDF. Bydd hyn yn caniatáu i ddefnyddwyr proffesiynol ddewis sut i edrych ar restrau a chynllunio pa wrandawiadau i arsylwi arnynt ac adrodd arnynt. Cyn bo hir, bydd y gwasanaeth yn derbyn data rhestrau yn uniongyrchol o systemau cyfiawnder i gyhoeddi gwybodaeth gwrandawriad yn uniongyrchol o'r ffynonellau hynny. Mae hyn yn dileu'r prosesau cyfredol â llaw ar gyfer cyhoeddi, gan ganiatáu i CaTH gyflwyno'r wybodaeth mewn fformat cyson a hygyrch, a fydd yn ei dro yn caniatáu i unrhyw un sy'n edrych ar restrau chwilio, didoli neu hidlo'r rhestri. Bydd rhestrau gwrandawiadau sifil a theulu yn dechrau cael eu cyhoeddi ar CaTH fel hyn yn ystod 2023.

Ar hyn o bryd mae CaTH yn derbyn ac yn cyhoeddi rhestrau'r Weithdrefn Un Ynad (SJP) gan ddefnyddio proses â llaw, gyda chynlluniau iddi dderbyn data'n uniongyrchol o'r Platfform Cyffredin yn y dyfodol. Mae rhestr SJP i'r wasg ar gael i'w gweld ar-lein gan aelodau achrededig o'r cyfryngau sy'n mewngofnodi i ran wedi'i dilysu o'r gwasanaeth

⁴ Rheolau gweithdrefn ([justice.gov.uk](https://www.justice.gov.uk))

⁵ Taflen ffeithiau:Gwasanaeth Gwrandawiadau Llysoedd a Thribiwnlysoedd - GOV.UK (www.gov.uk)

CaTH, neu drwy e-bost tanysgrifio. Ond mae'r wybodaeth sydd yn y rhestr gyhoeddus yn efelychu'r hyn sydd eisoes wedi'i gyhoeddi mewn rhestrau traddodiadol.

Bydd y gwaith presennol o gyhoeddi rhestrau nad ydynt ar CaTH yn parhau, gyda'r nod o gael holl restrau GLITEF ar y gwasanaeth newydd.

Fel y gwelir yn y dystiolaeth a ddarparwyd i ymchwiliad y JSC i gyfiawnder agored⁶, ceir beirniadaethau cyffredin o'r ffordd yr ydym yn cyhoeddi rhestrau ar hyn o bryd. Cododd ymatebwyr i ymchwiliad y JSC, gan gynnwys sefydliadau'r cyfryngau, bryderon ynghylch y diffyg manylion sydd ar gael yn gyhoeddus ac awgrymodd, ar gyfer Llysoedd Ynadon a Llysoedd y Goron yn benodol, y dylai enw, oedran a chyfeiriad pob diffynnydd, a'r cyhuddiadau y maent yn eu hwynebu, fod ar gael am ddim ar-lein ac ar bapur mewn llysoedd. Hefyd, awgrymwyd y gellid cynnwys amlinelliad cryno o natur achos ar y rhestr, gan y gallai hyn helpu newyddiadurwyr i benderfynu pa achosion i'w mynychu ac adrodd arnynt. Pwysleisiwyd hefyd ei bod yn bwysig bod rhestrau'n cael eu rhyddhau'n brydlon er mwyn sicrhau bod arsylwyr yn gallu cysylltu â'r llysoedd gydag unrhyw ymholiadau. Awgrymwyd hefyd y dylid ychwanegu gwybodaeth ychwanegol fel cyfyngiadau adrodd, dogfennau llys a chanlyniadau at restrau.

Mae'r llywodraeth yn cydnabod manteision cynyddu'r manylion a'r wybodaeth sydd ar gael mewn rhestrau cyhoeddus gan y gall hyn helpu i symleiddio ac atgyfnerthu ymhellach y ffordd y mae'r cyfryngau a'r cyhoedd yn cael gafael ar wybodaeth am wrandawiadau llys. Fodd bynnag, bydd angen ystyried hyn yn ofalus oherwydd y rheolau a'r arferion amrywiol ym mhob awdurdodaeth, sy'n rheoli pa wybodaeth y gellir ei darparu i'r cyhoedd, sut a ble y cedwir y wybodaeth hon mewn systemau cyfiawnder, yn ogystal ag ystyried y goblygiadau ar gyfer rheoli gwybodaeth a data. Byddai sefydlu'r swyddogaeth hon hefyd yn gofyn am gryn dipyn o adnoddau nad yw ar hyn o bryd o fewn cwrpas Rhaglen Ddiwygio GLITEF.

Rydyn ni eisiau deall sut gallwn ni wella gwasanaethau cyhoeddi rhestrau ymhellach er mwyn gwella tryloywder a chyfiawnder agored, gan gydnabod y risgiau a'r ystyriaethau uchod.

Cwestiynau am restrau

6. A yw'n ddefnyddiol i chi bod rhestrau llysoedd a thribiwnlysoedd yn cael eu cyhoeddi ar-lein a beth ydych chi'n defnyddio'r wybodaeth hon ar ei gyfer?

⁶ Cyfiawnder agored: adroddiadau llys yn yr oes ddigidol - Pwyllgorau - Senedd y DU

7. Ydych chi'n credu y dylid cael unrhyw gyfyngiadau ar ba wybodaeth y dylid ei chynnwys yn y rhestrau cyhoeddedig hyn (er enghraifft, enwi pob parti)?
8. Eglurwch a ydych chi'n teimlo y gellid gwella'r ffordd y mae cyfyngiadau adrodd yn cael eu rhestru ar hyn o bryd.
9. Ydych chi'n bwriadu neu ydych chi wrthi'n datblygu gwasanaethau neu nodweddion newydd ar sail mynediad at restrau'r llys cyhoeddus? Os felly, i bwy ydych chi'n ei ddarparu a pham mae ganddynt ddiddordeb yn y data hwn?
10. Pa wasanaethau neu nodweddion fydddech chi'n eu datblygu pe bai rhestrau cyfryngau ar gael (yn amodol ar drwyddedu priodol ac unrhyw gytundebau neu drefniadau eraill y mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn eu hystyried yn angenrheidiol) ar yr amod bod y gwasanaethau neu'r nodweddion dan sylw at ddefnydd aelodau achrededig o'r cyfryngau yn unig?
11. Pe bai rhestrau cyfryngau ar gael (yn amodol ar drwyddedu priodol ac unrhyw gytundebau neu drefniadau eraill y mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn eu hystyried yn angenrheidiol) ar gyfer defnyddio sefydliadau trydydd parti i ddefnyddio a datblygu gwasanaethau neu nodweddion fel y gwelant orau, sut bydddech chi'n defnyddio'r data hwn, i bwy fydddech chi'n ei ddarparu, a pham mae ganddynt ddiddordeb yn y data hwn?

Mynediad i lysoedd a thribiwnlysoedd

Mae mynediad i'r cyhoedd ac arsylwi achosion llys a thribiwnlys yn hanfodol er mwyn cynnal cyfiawnder agored. Mae sicrhau bod achosion yn digwydd mewn modd agored, cyhoeddus a thryloyw yn helpu i feithrin ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd yn y system gyfiawnder a rheolaeth y gyfraith. Felly, lle bo modd, cynhelir gwrandawiadau llys a thribiwnlys yng Nghymru a Lloegr yn gyhoeddus. Mae'n bwysig nodi y gall y barnwr, ym mhob achos, benderfynu sut y cynhelir gwrandawriad. Os teimlant fod hynny'n angenrheidiol er mwyn gweinyddu cyfiawnder yn briodol, gall barnwr benderfynu cynnal gwrandawriad yn breifat, heb arsylwyr yn bresennol.

Yn ein hymateb i ymchwiliad JSC i gyfiawnder agored, roeddem wedi ymrwymo i gyhoeddi siarter sy'n crynhoi'r rheolau presennol sy'n hwyluso mynediad y cyhoedd at wybodaeth a gwrandawiadau llysoedd a thribiwnlysoedd. Byddwn yn cyhoeddi'r siarter hon yn nes ymlaen yn 2023.

Mae ein gwasanaeth Dod o hyd i Lys neu Dribiwnlys (FaCT)⁷ ar-lein hefyd yn helpu pobl i ddod o hyd yn gyflym i'r manylion cyswllt cywir a gwybodaeth ychwanegol (e.e. gwybodaeth am deithio) ar gyfer llysoedd unigol. Rydym yn gofyn am eich barn ynghylch a oes mwy y gallai'r llywodraeth ei gynnig i gefnogi mynediad y cyhoedd i wrandawiadau llysoedd a thribiwnlysoedd.

Cwestiynau am gael mynediad i lysoedd a thribiwnlysoedd

12. Ydych chi'n ymwybodol bod gwasanaeth FaCT yn eich helpu i ddod o hyd i'r manylion cyswllt cywir ar gyfer llysoedd a thribiwnlysoedd unigol?
13. A oes unrhyw beth arall y gallai gwasanaethau digidol fel FaCT ei gynnig i'ch helpu i gael mynediad at lysoedd a thribiwnlysoedd?

⁷ Dod o hyd i lys neu dribiwnlys - GOV.UK (www.gov.uk)

Arsylwi o bell a ffrydio byw

Yn draddodiadol, mae mynd i wrandawiadau llys a thribiwnlys wedi cael ei wneud wyneb yn wyneb, drwy orielau cyhoeddus neu ganiatáu i aelodau o'r cyfryngau eistedd yng nghanol y llys (y tu hwnt i'r man eistedd cyhoeddus). Ym mis Mawrth 2020, roedd pandemig Covid-19 yn golygu bod adeiladau llysoedd a thribiwnlysoedd ledled y wlad yn cael eu gorfodi i gau, a bod achosion cyfreithiol yng Nghymru a Lloegr yn cael eu cynnal bron yn gyfan gwbl drwy dechnolegau sain a fideo. Yn ystod y pandemig, roeddem wedi pasio deddfwriaeth frys i ganiatáu ar gyfer arsylwi achosion o bell ar gyfer achosion cyfan gwbl o bell er mwyn gallu cynnal yr egwyddor o gyfiawnder agored. Roedd hyn yn gweithio'n dda, ac felly penderfynodd y llywodraeth ehangu'r arsylwi o bell a'i wneud yn nodwedd barhaol o'r system gyfiawnder.

O ganlyniad, ym mis Mehefin 2022, cyflwynodd y llywodraeth deddfwriaeth drwy Ddeddf yr Heddlu, Trosedd, Dedfrydu a'r Llysoedd (PCSC) 2022⁸ sy'n caniatáu i'r cyfryngau a'r cyhoedd ofyn am fynediad i arsylwi o bell unrhyw wrandawriad llys a thribiwnlys agored ledled Cymru a Lloegr. Mae'r llywodraeth wedi cyhoeddi canllawiau⁹ sy'n egluro bod yn rhaid i'r unigolyn, er mwyn arsylwi gwrandawriad o bell, gysylltu â'r llys neu'r tribiwnlys lle mae'r gwrandawriad yn cael ei gynnal, rhoi ei enw llawn a'i gyfeiriad e-bost a gofyn am gyswllt fideo.

Yn ogystal â chaniatáu i unigolion ofyn am fynediad i arsylwi gwrandawriad o bell, mae'r pwerau newydd hyn hefyd yn caniatáu i lysoedd drawsyrro achosion i fannau penodol. Rhaid i'r Arglwydd Ganghellor enwi lleoedd fel safleoedd ffrydio byw dynodedig, a byddai'r adeiladau hyn wedyn yn cael eu hychwanegu at restr o safleoedd cymeradwy a gyhoeddir ar GOV.UK. Mae ffrydio achosion llys yn fyw yn wahanol i ddarlledu achosion llys. Mae darlledu yn caniatáu i gamerâu teledu ddarlledu achosion ac felly mae'n ddull mwy anghyfyngedig o ffrydio achosion (mae hyn yn cael sylw yn adran 'darlledu' y cais hwn am dystiolaeth).

Fel y crybwyllwyd eisoes, mae fframwaith deddfwriaethol cyfiawnder agored yn dyddio'n ôl i 1925, gan gynnwys gwaharddiad 1925 ar ffotograffiaeth yn y llys a gwaharddiad 1981 ar recordio sain yn y llys. Mae'r deddfwriaeth a gyflwynwyd yn Neddf PCSC 2022 yn efelychu'r mesurau hyn ar gyfer arsylwyr o bell, gan ei gwneud yn drosedd recordio fideo neu sain gwrandawriad neu dynnu lluniau/sgrinluniau o'r gwrandawriad wrth arsylwi o bell.

Mae'n bwysig nodi nad yw'r pwerau hyn ond yn galluogi llysoedd a thribiwnlysoedd i drawsyrro'n uniongyrchol i unigolion neu leoliadau penodol fel y gwelant orau (e.e. y rheini

⁸ Rheoliadau Arsylwi a Chofnodi o Bell (Llysoedd a Thribiwnlysoedd) 2022 (legislation.gov.uk)

⁹ Arsylwi gwrandawriad llys neu dribiwnlys - GOV.UK (www.gov.uk)

sydd â diddordeb uniongyrchol yn yr achos ac sy'n cael eu dynodi i'r llys), yn hytrach na darlledu achosion yn eang. Ar ben hynny, gall y barnwr barhau i benderfynu a ellir arsylwi gwrandawriad o bell. Er mwyn hwyluso mynediad o bell i arsylwyr, bydd angen i lysoedd a thribiwnlysoedd hefyd gael eu cefnogi gan y dechnoleg a'r staff angenrheidiol.

Mae'r newidiadau hyn wedi trawsnewid cyfiawnder agored. Maen nhw'n cefnogi gohebu yn y llys drwy ganiatáu i newyddiadurwyr fynychu nifer o wrandawriadau yn rhithiol mewn gwahanol leoliadau mewn un diwrnod. Mae hefyd yn caniatáu i'r rheini sy'n methu neu'n anghyfforddus wrth arsylwi gwrandawriad llys neu dribiwnlys wyneb yn wyneb wneud hynny o leoliad gwahanol.

Er bod y pwerau ffrydio byw a gyflwynwyd drwy Ddeddf PCSC 2022 wedi cael eu defnyddio'n helaeth yn ymarferol (trawsyrru achosion i safle ffrydio byw dynodedig), mae gan hyn botensial mawr i wella cyfiawnder agored, gan alluogi mwy o bobl i arsylwi achosion llys a datblygu gwell dealltwriaeth o sut mae'r system gyfiawnder yn gweithio.

Gan fod y ddeddfwriaeth a gyflwynwyd yn Neddf PCSC 2022 wedi bod ar waith ers mis Mehefin 2022, rydyn ni eisiau archwilio safbwyntiau'r cyhoedd ar arsylwi o bell. Ar ben hynny, rydyn ni eisiau profi awydd y cyhoedd i gynyddu'r defnydd o ffrydio byw yn benodol.

Cwestiynau am arsylwi o bell a ffrydio byw

14. Beth yw eich barn gyffredinol am fanteision a risgiau caniatáu ar gyfer arsylwi o bell a ffrydio achosion llys agored yn fyw ac ar gyfer beth gellid ei ddefnyddio yn y dyfodol?
15. Ydych chi'n credu y dylid caniatáu i bob aelod o'r cyhoedd arsylwi gwrandawriadau llys a thribiwnlys agored o bell?
16. Ydych chi'n credu y dylai'r cyfryngau allu mynychu pob achos llys agored o bell?
17. Ydych chi'n credu y dylai pob gwrandawriad llys agored ganiatáu ar gyfer ffrydio byw ac arsylwi o bell? A fydddech chi'n eithrio unrhyw fathau o wrandawriadau llys rhag ffrydio byw ac arsylwadau o bell?
18. A fydddech chi'n gosod cyfyngiadau ar adrodd ar achosion llys? Os felly, pa achosion a pham?
19. Ydych chi'n meddwl bod unrhyw fathau o adeiladau a fyddai'n arbennig o ddefnyddiol i wneud safle ffrydio byw dynodedig?
20. Sut gallai'r broses o gael mynediad at wrandawriad arsylwi o bell fod yn haws i'r cyhoedd a'r cyfryngau?

Darlledu

Ychydig iawn o bobl sydd â phrofiad uniongyrchol o achosion llys ar hyn o bryd, ac mae dealltwriaeth gyffredinol y cyhoedd o'r system gyfiawnder yn gyfyngedig. Mae'r rhan fwyaf o eisteddiadau llys yn digwydd pan fydd pobl yn y gwaith, ac o ganlyniad, mae llawer o bobl ar hyn o bryd yn seilio eu barn am y system llys ar bortreadau dramatig mewn rhaglenni teledu neu ffilmiau. Gall y cyfryngau darlledu chwarae rhan wrth agor y llysoedd i'r cyhoedd, egluro'r broses cyfiawnder troseddol, a chynyddu dealltwriaeth o ddedfrydu.

Ar hyn o bryd rydym yn hwyluso darlledu achosion yn y Goruchaf Lys, y Llys Apêl (Adran Sifil), y Tribiwnlys Apeliadau Cystadleuaeth ac, mewn capasiti cyfyngedig, sylwadau dedfrydu barnwrol o Lys y Goron. Mae caniatáu darlledu achosion yn gwella cyfiawnder agored drwy helpu'r cyhoedd i weld a deall sut mae ein system gyfiawnder yn gweithio.

Er y byddai darlledu achosion fel arfer yn cael ei wahardd oherwydd gwaharddiad 1925 ar ffotograffiaeth, a gwaharddiadau 1981 ar recordio sain, gellir datgymhwyso hyn mewn rhai amgylchiadau. Mae adran 32 o Ddeddf Troseddau a Llysoedd 2013¹⁰ yn caniatáu i'r gwaharddiadau gael eu datgymhwyso mewn amgylchiadau penodol gan is-ddeddfwriaeth. Ar hyn o bryd mae is-ddeddfwriaeth ar waith i ganiatáu i'r Llys Apêl¹¹ a'r Tribiwnlys Apelu Cystadlu¹² ddarlledu achosion ac i Lys y Goron¹³ ddarlledu sylwadau dedfrydu yn unig. Ers 2022, mewn achosion proffil uchel, gall Llys y Goron ddarlledu sylwadau dedfrydu ar-lein er mwyn i'r cyfryngau ac aelodau o'r cyhoedd sydd â diddordeb allu clywed sylwadau dedfrydu'r barnwr yn cael eu cyflwyno yn y llys.

Yn unol â Deddf Diwygio Cyfansoddiadol 2005¹⁴, mae'r Goruchaf Lys wedi'i eithrio o gwmpas gwaharddiadau gwreiddiol 1925 a 1981 ac felly gall gofnodi a chyhoeddi unrhyw ddeunydd o'i achosion. Y rheswm am hyn yw, cyn ei sefydlu ym mis Hydref 2009, y byddai achosion sydd bellach yn cael eu clywed gan Oruchaf Lys y DU wedi cael eu clywed yn Nhŷ'r Arglwyddi, lle'r oedd darlledu'n cael ei ganiatáu. Ar ben hynny, pan gafodd ei sefydlu, nododd y Goruchaf Lys amcan allweddol o wneud ei achosion yn fwy hygyrch i'r cyhoedd ac am y rheswm hwnnw mae ei achosion yn cael eu ffilmio a'u darlledu'n rheolaidd.

¹⁰ Deddf Troseddau a Llysoedd 2013 (legislation.gov.uk)

¹¹ Gorchymyn y Llys Apêl (Recordio a Darlledu) 2013 (legislation.gov.uk) a Gorchymyn y Llys Apêl (Recordio a Darlledu) (Diwygiad) 2020 (legislation.gov.uk)

¹² Gorchymyn Tribiwnlys Apelu Cystadlu (Recordio a Darlledu) 2022 (legislation.gov.uk)

¹³ Gorchymyn Llys y Goron (Recordio a Darlledu) 2020 (legislation.gov.uk)

¹⁴ Deddf Diwygio Cyfansoddiadol 2005 (legislation.gov.uk)

Gwnaeth ymatebwyr i ymchwiliad y JSC i gyfiawnder agored nifer o argymhellion o ran ehangu'r drefn ddarlledu bresennol. Maent yn cynnwys ehangu darlledu i adrannau eraill y Llys Apêl, yr Uchel Lys a'r Uwch Dribiwnlys, yn ogystal â darlledu agor yr achos gan yr erlyniad gyda delwedd o'r diffynnydd yn y llys.

Mae'r rheini sy'n argymhell yr ehangu hwn yn dadlau bod teledu, ffilmio a darlledu amlgyfrwng o achosion llys mewn awdurdodaethau cyfreithiol eraill wedi gwella dealltwriaeth a pharch y cyhoedd at y broses cyfiawnder troseddol, rheol y gyfraith a phwysigrwydd y farnwriaeth annibynnol. Mae'r awydd i weld achosion y Goruchaf Lys a sylwadau Dedfrydu Llys y Goron hefyd wedi tynnu sylw at alw a diddordeb y cyhoedd ynghylch sut mae'r llysoedd yn gweithio, a byddai ehangu'r drefn bresennol yn hwyluso hyn ymhellach. Awgrymir hefyd bod cenedlaethau newydd o ddefnyddwyr cyfryngau eisoes yn mynnu ac yn disgwyl cynrychiolaeth fwy modern, 'ymwybodol o dechnoleg' o gyfiawnder agored wrth ohebu yn y llys.

Mae pryderon y gallai llacio'r rheolau darlledu presennol yn y llysoedd troseddol danseilio'r preifatrwydd a'r amddiffyniad angenrheidiol mewn llawer o achosion. Gall darlledu ein llysoedd hefyd agor y broses farnwrol i or-liwio a bychanu prosesau difrifol i lefel o adloniant yn y cyfryngau.

I archwilio lle gallem ehangu'r drefn ddarlledu ymhellach yng Nghymru a Lloegr, gallwn hefyd edrych ar y gwahanol ddulliau sydd wedi cael eu defnyddio i ddarlledu'n rhyngwladol. Yn yr Alban, nid yw darlledu erioed wedi cael ei gyfyngu yn yr un ffordd â Chymru a Lloegr. Ers 1992, mae darlledwyr wedi gallu gwneud cais am ganiatâd i ffilmio treialon. Egwyddor sylfaenol yr arfer yw y dylai presenoldeb camerâu yn y llys fod heb risg i weinyddu cyfiawnder. Cyn belled â bod yr holl bartion allweddol yn cytuno a bod yr amodau'n cael eu bodloni, gellir ffilmio treialon llawn yn ddamcaniaethol at ddibenion addysgol a gall dyfarniadau rheithgorau, neu ddedfrydu, gael eu ffilmio at ddibenion eraill fel darllediadau newyddion. Er bod rhai achosion lle mae ffilmio mewn llysoedd wedi cael ei awdurdodi mewn achosion llys yn yr Alban, yn ymarferol, nid yw'r Alban wedi gweld darlledu eang i raddau helaeth oherwydd y gofyniad bod yn rhaid i bob parti roi eu caniatâd.

Yn Seland Newydd, cyflwynwyd ffilmio mewn llys yn 1998 a gellir caniatáu darlledu'r rhan fwyaf o'r achosion, ond rhaid i ddarlledwyr wneud cais i'r llys ymlaen llaw gan nodi pa agwedd ar y broses llys y maent yn dymuno ei ffilmio (treial, dedfrydu, apêl) ac enw'r rhaglenni y bydd y ffilm yn cael ei defnyddio ynddynt. Gall y barnwr ym mhob achos gymeradwyo neu wrthod ceisiadau ac mae ganddynt y pŵer i reoli achosion llys, ac i gael gwared â'r cyfryngau yn ôl eu disgrisiwn. Mae rheolau penodol ynghylch yr hyn y gellir ei ffilmio yn y llys hefyd yn cael eu cynnwys mewn canllawiau a gyhoeddir gan y farnwriaeth.

Yn yr Unol Daleithiau, caniateir darlledu mewn unrhyw dalaith; fodd bynnag, mae'r rheolau sy'n ymwneud â ffilmio gweithdrefnau'r llys yn amrywio rhyngddynt. Mewn rhai taleithiau,

dim ond achosion apeliadol y gellir eu ffilmio, ac mewn rhai eraill mae sylw i dreialon wedi'i gyfyngu i achosion sifil. Ym mhob talaith, dim ond yn ôl disgrisiwn y barnwr gweinyddol y caniateir ffilmio. Yn wahanol i'r DU, Goruchaf Lys yr Unol Daleithiau yw'r unig lys lle na chaniateir darlledu achosion. Mae'r llys yn rhyddhau recordiadau sain ar ddiwedd yr wythnosau pan fydd wedi clywed dadleuon, ond nid yw erioed wedi caniatáu fideo, hyd yn oed wedi ei oedi.

Gan ystyried y dadleuon a'r argymhellion uchod, rydym am brofi'r galw gan y cyhoedd am ehangu pwerau i ganiatáu darlledu rhagor o achosion.

Cwestiynau am ddarlledu

- 21.** Yn eich barn chi, beth yw manteision darlledu achosion llys i'r cyhoedd?
- 22.** Rhowch fanylion y mathau o achosion llys y credwch y dylid eu darlledu a pham y byddai hyn o fudd i'r cyhoedd? A oes unrhyw fathau o achosion na ddylid eu darlledu?
- 23.** Ydych chi'n meddwl bod unrhyw risgiau i ddarlledu achosion llys?
- 24.** Beth yw eich barn am waharddiad 1925 ar ffotograffiaeth a gwaharddiad 1981 ar recordio sain yn y llys ac a ydynt yn dal yn addas i'r diben yn yr oes fodern? A oes technolegau eraill sy'n dod i'r amlwg lle dylem ystyried ein polisi mewn perthynas â defnydd yn y llys?

Trefn Ynad Sengl (SJP)

Mae'r Weithdrefn Ynad Sengl (SJP) yn ffordd fwy cymesur o ddelio â throeddau syml, diwrthwynebiad, diannod yn unig (difrifoldeb isel), nad ydynt yn rhai carcharol sydd bron yn gyfan gwbl yn arwain at gosb ariannol. Mae enghreifftiau o droeddau o'r fath yn cynnwys defnyddio teledu heb drwydded, gyrru heb yswiriant car a mynd y tu hwnt i gyfyngiad cyflymder. Yn y pen draw, mae'n caniatáu i un ynad, gyda chefnogaeth cynghorydd cyfreithiol, benderfynu ar droeddau o'r fath heb i'r diffynnydd fynd i'r llys.

Yn flaenorol yn yr achosion hyn, anfonir gwŷs at ddiffynyddion yn eu gwahodd i naill ai bledio'n euog i'r trosedd drwy'r post neu fynychu llys ynadon penodol ar ddiwrnod sydd eisoes wedi'i ddyrannu a'i ariannu gan y llys. Gwelwyd, fodd bynnag, fod diffynyddion yn tueddu i beidio ag ymgysylltu o gwbl, a bod treialon yn aml yn mynd ymlaen hebddynt. Profodd y rhain hefyd i fod yn achosion nad oedd y wasg yn eu mynychu'n aml.

Nod cyflwyno SJP oedd lleihau'r amser llys hwn a wastraffwyd a sicrhau bod diffynyddion o leiaf yn cymryd rhan ym mhroses y llys. Mae'n golygu, ar gyfer diffynyddion sy'n pledio'n euog, neu nad ydynt yn ymateb o fewn y terfyn amser o 21 diwrnod, yr ymdrinnir â'u hachos drwy'r SJP. Os byddant yn pledio'n ddieuog neu'n gofyn am wrandawriad llys, bydd yr achos yn mynd i wrandawriad mewn llys agored; fodd bynnag, gall diffynyddion sy'n pledio'n euog ddal ofyn am wrandawriad, er enghraifft os ydynt am ddadlau yn erbyn gwaharddiad rhag gyrru. Mae'n bwysig nodi na ellir delio â diffynyddion drwy'r SJP yn groes i'w hewyllys.

Gall diffynyddion sy'n pledio ar-lein hefyd gynnwys manylion unrhyw amgylchiadau lliniarol yr hoffent i'r llys eu hystyried. Gellir ychwanegu'r ple at yr achos ar yr un diwrnod ag y caiff ei gofnodi. Mae hyn yn lleihau'r amser y mae'n ei gymryd i ddatrys yr achos. Mae system rheoli achosion newydd GLITEF, Common Platform¹⁵, yn awtomeiddio prosesau ac yn lleihau'n sylweddol y tasgau gweinyddol sy'n angenrheidiol ym mhob achos. Mae'r canlyniadau'n cael eu cofnodi'n ddigidol ac maent ar gael ar unwaith i erlynwyr a phartïon eraill.

Rydym wedi gweithio'n agos gyda'r cyfryngau i sicrhau bod yr SJP yn hygyrch ac yn agored a byddem yn dadlau bod digon o dryloywder ar gyfer achosion yr ymdrinnir â nhw o dan y weithdrefn hon. Er bod y Rheolau Trefniadaeth Droseddol yn mynnu bod pob llys yn rhoi gwybodaeth ychwanegol benodol am achosion unigol ar gais gan y cyfryngau a thrydydd partïon eraill sydd â diddordeb, ar hyn o bryd mae'n rhaid i lysoedd roi mwy o

¹⁵ Taflen ffeithiau: Common Platform - GOV.UK (www.gov.uk)

wybodaeth am achosion sy'n cael eu herlyn dan yr SJP. Mae hyn yn cynnwys datganiad ffeithiau'r erlyniad a datganiad lliniariad y diffynnydd.

Ar ben hynny, mae rhestr o achosion SJP sy'n aros yn cael ei chyhoeddi ar-lein bob dydd ar y gwasanaeth CaTH, sydd ar gael i'r cyhoedd. Mae fersiwn ar gyfer y cyfryngau o'r rhestr hon hefyd wedi'i chyhoeddi ar CaTH, sy'n cynnwys rhagor o wybodaeth am yr achosion hyn er mwyn iddynt allu adrodd arnynt os ydynt yn dymuno gwneud hynny. Mae'r cyfryngau felly'n derbyn mwy o wybodaeth am achosion yr ymdrinnir â hwy dan y weithdrefn hon nag achosion traddodiadol, lle na fyddai gohebwy'r ond yn derbyn gwybodaeth o'r fath pe baent yn mynychu'r llys yn bersonol ac yn ysgrifennu'r dystiolaeth i lawr.

Fodd bynnag, mae'r graddau y mae'r SJP yn sicrhau tryloywder a natur agored ddigonol y system gyfiawnder yn dal i gael ei gwestiynu. Mae rhai'n teimlo bod yr SJP yn 'weithdrefn gaeedig gynhenid' gyda diffyg goruchwyliaeth a byddent yn croesawu mwy o fynediad at wybodaeth am yr achosion hyn fel yr ystadegau ar faint o bobl sy'n cael eu herlyn dan y SJP, pa droseddau, ac a yw'r diffynnydd wedi pledio'n euog, yn ddieuog, neu heb bledio.

Codwyd pryderon hefyd nad yw SJP yn darparu digon o dryloywder yn y broses drwy gyhoeddi canlyniadau achosion yn unig.

Felly, rydym yn gofyn am eich barn ynghylch a oes rhagor y gallai'r llywodraeth ei wneud i wella tryloywder y broses SJP.

Cwestiynau am y Weithdrefn Ynad Sengl

25. Yn eich barn chi, beth allai'r llywodraeth ei wneud i wella tryloywder y SJP?

26. Sut gellid gwella'r broses o gyhoeddi achosion SJP ar hyn o bryd (ar CaTH)?

Cyhoeddi dyfarniadau a sylwadau dedfrydu

Mae dyfarniad yn amlinellu'r penderfyniad y mae barnwr wedi'i wneud mewn achos llys neu driwlynlys ac yn rhoi esboniad ynghylch sut y daeth i'r penderfyniad hwnnw. Felly, mae cyhoeddi dyfarniadau'n rhoi penderfyniadau barnwrol yn y parth cyhoeddus ac yn galluogi'r cyhoedd i graffu ar y penderfyniadau hynny a'u deall.

O dan ein system cyfraith gyffredin, mae dyfarniadau'n ffynhonnell o gyfraith, ac mae mynediad atynt yn hawl sylfaenol sy'n ganolog i reolaeth y gyfraith a'r egwyddor o gyfiawnder agored. Ym mis Awst 2019, ailadroddodd y Goruchaf Lys y pwysigrwydd hwn yn achos *Cape Intermediate Holdings Ltd v Dring*, gan bwysleisio, o leiaf, y dylai'r cyhoedd gael mynediad at ddyfarniadau llys¹⁶ a phenderfyniadau triwlynlys.

Ym mis Ebrill 2022, lansiodd yr Archifau Cenedlaethol a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder Find Case Law (FCL)¹⁷, gwasanaeth sy'n cyhoeddi dyfarniadau llys a phenderfyniadau triwlynlys sydd ar gael yn rhwydd. Pwrpas FCL yw cynyddu mynediad y cyhoedd at ddyfarniadau, sicrhau eu bod yn cael eu cadw a galluogi aildefnyddio. Mae aildefnyddio dyfarniadau a gyhoeddir ar FCL yn cael ei lywodraethu gan y Drwydded Cyfiawnder Agored. Yn bwysig, mae dyfarniadau a gyhoeddir ar FCL yn ddarllenadwy gan beiriant ac felly gellir eu prosesu a'u dadansoddi'n gyfrifiadurol. Mae aildefnyddio at ddibenion cyfrifiadurol yn cael ei lywodraethu gan Drwydded Drafodol ar wahân sydd ond yn cael ei rhoi ar ôl cais llwyddiannus i'r Archifau Cenedlaethol. Drwy alluogi'r math hwn o aildefnyddio, ein nod yw cefnogi ac annog ymchwil ac arloesedd gyda mesurau diogelu priodol ar gyfer y data personol a sensitif sydd mewn dyfarniadau.

Yn ogystal â FCL, mae rhai penderfyniadau triwlynlysoedd yn cael eu cyhoeddi ar GOV.UK gan gynnwys dyfarniadau a rhesymau ysgrifenedig ar gyfer y Tribiwnlys Cyflogaeth. Dan Reoliadau Tribiwnlysoedd Cyflogaeth (Cyfansoddiad a Rheolau Gweithdrefn) 2013 mae'n ofynnol i'r Arglwydd Ganghellor gadw cofrestr o ddyfarniadau a rhesymau ysgrifenedig.¹⁸ Nid oes modd i beiriant ddarllen y rhain ac nid ydynt yn cael eu rheoli gan yr un trwyddedau â phenderfyniadau a gyhoeddir ar FCL; fodd bynnag, mae'n hawdd dod o hyd i benderfyniadau a gyhoeddir gan driwlynlysoedd ar-lein drwy ddefnyddio peiriannau chwilio fel Google.

¹⁶'Cape Intermediate Holdings Ltd v Dring (ar ran Asbestos Victims Support Groups Forum UK)' (2019) UKSC 38, paragraff (22). *Y Goruchaf Lys* [Ar-lein]. Ar gael yn: <https://www.supremecourt.uk/cases/uksc-2018-0184.html> (Cyrchwyd: 7 Ionawr 2021)

¹⁷ Find case law (nationalarchives.gov.uk)

¹⁸Rheoliadau Tribiwnlysoedd Cyflogaeth (Cyfansoddiad a Rheolau Gweithdrefn) 2013

Ers ei lansio ym mis Ebrill 2022, mae FCL wedi cyhoeddi dros 4,000 o ddyfarniadau a phenderfyniadau tribiwnlysoedd ar ei wefan. Mae'r gwasanaeth ar gamau cynnar ei ddatblygiad ar hyn o bryd ac mae gwelliannau graddol yn cael eu gwneud mewn ymateb i brofion defnyddwyr ac adborth. Ar hyn o bryd mae FCL yn blaenoriaethu cyhoeddi dyfarniadau a phenderfyniadau cyfreithiol arwyddocaol o Gymru a Lloegr; fodd bynnag, yr uchelgais tymor hwy yw darparu cofnod cyflawn o ddyfarniadau a phenderfyniadau. Wrth i ni weithio tuag at yr uchelgais hwn, rydyn ni eisiau deall eich safbwyntiau am ehangu FCL a'r prosesau presennol ar gyfer cyhoeddi penderfyniadau ar GOV.UK.

Mae sylwadau dedfrydu ar wahân i ddyfarniadau llys neu dribiwnlys ac nid ydynt yn cael eu cyhoeddi fel mater o drefn. Datganiadau ydynt sy'n cael eu pasio gan farnwr wrth ddedfrydu troseddwr. Mae'r sylwadau'n nodi'r ddedfryd a roddwyd i'r troseddwr ac yn amlinellu rhesymau'r barnwr dros y ddedfryd. Gall barnwr benderfynu cyhoeddi ei sylwadau dedfrydu os oes budd i'r cyhoedd, os oes arwyddocâd cyfreithiol i'r achos, neu os yw'r sylwadau'n helpu dealltwriaeth y cyhoedd. Yn y llysoedd uwch, mae barnwyr yn rhoi eu sylwadau dedfrydu ar lafar yn y gwrandawriad dedfrydu ac mae'r rhain wedyn yn cael eu cofnodi a'u trawsgrifio. Mewn achosion proffil uchel, gall Llys y Goron ddarlledu sylwadau dedfrydu ar-lein.

Nid yw sylwadau dedfrydu yn cael eu cyhoeddi yn y Llysoedd Ynadon drwyddi draw. Fel y nodwyd, yn ein hymateb i ymchwiliad JSC, byddai'r buddsoddiad cyfalaf mawr a'r adnoddau sydd eu hangen i gofnodi, trawsgrifio a chyhoeddi sylwadau dedfrydu ar draws y llysoedd ynadon yn anghymesur; fodd bynnag, rydym am ddefnyddio'r cais hwn am dystiolaeth i lunio a goleuo polisi yn y dyfodol ar gyhoeddi sylwadau dedfrydu.

Cwestiynau am hawl y cyhoedd i weld dyfarniadau

- 27.** Yn eich profiad chi, ydy'r dyfarniadau llys neu benderfyniadau'r tribiwnlys sydd eu hangen arnoch chi ar gael i'r cyhoedd ar-lein? Rhowch enghreifftiau yn eich ymateb.
- 28.** Mae'r llywodraeth yn bwriadu cyfuno dyfarniadau llys a phenderfyniadau tribiwnlysoedd a gyhoeddir ar hyn o bryd ar safleoedd eraill y llywodraeth yn FCL, er mwyn i'r holl ddyfarniadau a phenderfyniadau fod ar gael ar un gwasanaeth, ar gael mewn fformat y gellir ei ddarllen gan beiriant ac yn amodol ar system drwyddedu FCL. Byddai safleoedd eraill y llywodraeth wedyn yn cael eu cau. Oes gennych chi unrhyw farn am hyn?
- 29.** Mae'r llywodraeth yn gweithio tuag at gyhoeddi cofnod cyflawn o ddyfarniadau llys a phenderfyniadau tribiwnlys. Pa ddyfarniadau neu benderfyniadau hoffech chi eu gweld yn cael eu cyhoeddi ar-lein nad ydynt ar gael ar hyn o bryd? Pa ddyfarniadau neu benderfyniadau na ddylid eu cyhoeddi ar-lein a'u darparu ar gais yn unig? Esboniwch pam

30. Ar wahân i ddyfarniadau llys a phenderfyniadau tribiwnlys, a oes cofnodion llys eraill y credwch y dylid eu cyhoeddi ar-lein a/neu ddylai fod ar gael ar gais? Os felly, esboniwch pam a sut.
31. Yn eich barn chi, sut gellir gwella'r broses o gyhoeddi dyfarniadau a phenderfyniadau er mwyn eu gwneud yn fwy hygyrch i ddefnyddwyr technolegau cynorthwyol a defnyddwyr sydd â gallu digidol cyfyngedig? Rhowch enghreifftiau yn eich ymateb.
32. Yn eich profiad chi, a yw cyhoeddi dyfarniadau neu benderfyniadau tribiwnlys wedi cael effaith negyddol ar ddefnyddwyr y llys neu aelodau ehangach o'r cyhoedd?

Cwestiynau ar aildefnyddio dyfarniadau'n gyfrifiadurol ar Find Case Law a thrwyddedu:

33. Pa wasanaethau neu nodweddion newydd sy'n seiliedig ar fynediad at ddyfarniadau llys a phenderfyniadau tribiwnlys ydych chi'n bwriadu eu datblygu neu ydych chi'n wrthi yn eu datblygu? Pwy yw'r gynulleidfa darged? (Er enghraifft, cyfreithwyr, busnesau, defnyddwyr llys, defnyddwyr eraill).
34. Ydych chi'n defnyddio dyfarniadau o diriogaethau eraill i ddatblygu eich gwasanaethau/cynnyrch? Rhowch fanylion
35. Ar ôl blwyddyn o weithredu, rydym yn adolygu'r Drwydded Drafodol. Yn eich profiad chi, sut mae'r Llys Agored a/neu'r Drwydded Drafodol wedi cefnogi neu gyfyngu ar eich gallu i aildefnyddio dyfarniadau llys neu benderfyniadau tribiwnlys. Sut mae hyn yn cymharu â'ch profiad cyn mis Ebrill 2022? Rhowch enghreifftiau yn eich ymateb.
36. Wrth ddisgrifio'r defnydd o'r Drwydded Drafodol, rydym yn defnyddio'r term 'dadansoddi cyfrifiadurol'. Yr ydym wedi clywed gan randdeiliaid, fodd bynnag, fod y term yn rhy amwys. Pa derm(au) fyddai orau gennych chi? Esboniwch eich ateb.

Cwestiynau ar benderfyniadau tribiwnlysoedd a gyhoeddwyd ar GOV.UK:

37. Ydych chi wedi chwilio am benderfyniadau tribiwnlys ar-lein ac os ydych chi wedi gwneud hynny, beth oedd eich profiad, a beth oedd eich rheswm dros chwilio?
38. Ydych chi'n meddwl y dylai penderfyniadau tribiwnlys ymddangos mewn peiriannau chwilio ar-lein fel Google?

39. Pa wybodaeth sydd ei hangen i'w chynnwys mewn cofrestr o benderfyniadau a gyhoeddir? Pa fesurau diogelu fyddai eu hangen?

Cwestiynau am fynediad y cyhoedd i sylwadau dedfrydu:

40. Ydych chi'n meddwl y dylid cyhoeddi sylwadau dedfrydu barnwrol ar-lein / ar gael ar gais? Os felly, ym mha fformat ydych chi'n meddwl y dylent fod ar gael? Esboniwch eich ateb.

Mynediad at ddogfennau a gwybodaeth y llys

Mae mynediad at ddogfennau llys a thribiwnlys yn rhan sylfaenol o gyfiawnder agored gan ei fod yn caniatáu i aelodau o'r cyhoedd nad ydynt yn rhan o achos (ddim yn bartïon) ddeall trefn achosion a'r casgliadau y mae'r llys wedi dod iddynt. Heb fynediad at y dogfennau hyn mewn achosion cymhleth, gall fod yn anodd iawn deall beth sy'n digwydd.

Mae'r rheolau ar gael gafael ar ddogfennau achos gan bobl nad ydynt yn rhan o'r achos (pobl nad ydynt yn ymwneud yn uniongyrchol â'r achos) yn amrywio ar draws awdurdodaethau. Mae rhai dogfennau yn gofyn am ganiatâd y barnwr i gael eu rhyddhau tra nad yw eraill yn gwneud hynny. Nodir hyn yn y rheolau gweithdrefnau ar draws y gwahanol awdurdodaethau. Er enghraifft, mewn achos agored, unwaith y bydd achos wedi dod i ben, gall unrhyw un gael y dyfarniad neu'r gorchymyn yn gyhoeddus. Mae rhai dogfennau angen caniatâd y barnwr a thalu ffi – er enghraifft, gall hyn gynnwys trawsgrifiadau a dadleuon fframwaith. Ar adegau, rhaid i ymgeiswyr esbonio pam eu bod yn ceisio mynediad a sut mae rhoi mynediad iddynt at y wybodaeth hon yn hyrwyddo cyfiawnder agored. Bydd y barnwr wedyn yn cynnal ymarfer cydbwysio penodol o ran ffeithiau. Mae hyn yn golygu y bydd yn pwysu a mesur yr egwyddor cyfiawnder agored yn erbyn y risg y gallai datgelu ei achosi i weinyddu cyfiawnder neu fuddiannau cyfreithlon eraill. Mae'r rhan fwyaf o bobl nad ydynt yn bartïon sy'n chwilio am fynediad at ddogfennau yn aelodau o'r cyfryngau. Fodd bynnag, mae mwy a mwy o ymgeiswyr hefyd yn cynnwys cyrff anllywodraethol ac academyddion sy'n cynnal ymchwil ar y system gyfiawnder. Mae'r ceisiadau hyn fel arfer yn cynnwys ceisiadau i gael mynediad at nifer o ddogfennau llys ar draws sawl llys.

Fel y gwelir mewn tystiolaeth a gyflwynwyd i ymchwiliad JSC¹⁹ ar gyfiawnder agored, gall y rheini nad ydynt yn bartïon brofi anhawster wrth geisio cael mynediad at ddogfennau. O'r herwydd, rydym yn parhau i weithio gyda'r farnwriaeth i edrych ar ffyrdd o wella gallu'r cyhoedd i ddeall a chraffu ar y system gyfiawnder. Mae enghreifftiau o hyn yn cynnwys cyflwyno Find Case Law, Siarter y Gohebwy²⁰ sy'n rhoi arweiniad i newyddiadurwyr ar ba ddogfennau y mae ganddynt hawl iddynt, a Phrotocol y Cyfryngau²¹. Mae Protocol y Cyfryngau yn gytundeb rhwng y cyfryngau a GLITEF lle mae GLITEF yn darparu copiâu am ddim o restrau a chofrestrau llys gwell i newyddiadurwyr achrededig.

¹⁹ Cyfiawnder agored: adroddiadau llys yn yr oes ddigidol (parliament.uk)

²⁰ HMCTS702_Reporters_Charter_A4P_v5_Dec_22.pdf (publishing.service.gov.uk)

²¹ HMCTS314_Protocol_on_sharing_court_lists-registers_and_docs_with_media_Jan_22.pdf (publishing.service.gov.uk)

Yn y pen draw, y barnwr a'r llys sy'n penderfynu rhyddhau'r rhan fwyaf o ddogfennau'r llys. Fodd bynnag, mae'n bwysig ein bod yn profi eich dealltwriaeth o arferion cyfredol gan y bydd hyn yn helpu i lywio newidiadau yn y dyfodol i gryfhau cyfiawnder agored. Bydd unrhyw bolisi ar fynediad yn y dyfodol yn cael ei ddatblygu mewn partneriaeth â'r farnwriaeth.

Cwestiynau am fynediad at ddogfennau'r llys

41. Fel rhywun nad yw'n barti i'r achos, at ba ddiben y byddech chi'n ceisio cael gweld dogfennau'r llys neu'r tribiwnlys?
42. Ydych chi (heb fod yn barti) yn gwybod pryd y dylech wneud cais i'r llys neu'r tribiwnlys am fynediad at ddogfennau a phryd y dylech wneud cais i sefydliadau eraill?
43. Ydych chi (heb fod yn barti) yn gwybod ble i edrych neu â phwy i gysylltu i ofyn am gael gweld dogfennau'r llys neu'r tribiwnlys?
44. Ydych chi (heb fod yn barti) yn gwybod pa fathau o ddogfennau llys neu dribiwnlys sy'n cael eu cadw fel arfer?
45. Beth yw'r prif broblemau rydych chi (heb fod yn barti) wedi dod ar eu traws wrth geisio cael mynediad at ddogfennau llys neu dribiwnlys?
46. Sut gallwn ni egluro'r rheolau a'r canllawiau ar gyfer ceisiadau gan rai nad ydynt yn barti i gael gafael ar ddeunydd a ddarperir i'r llys neu'r tribiwnlys?
47. Ar y lleiaf, pa ddeunydd a ddarperir i'r llys gan bartïon mewn achos ddylai fod ar gael i'r rhai nad ydynt yn bartïon?
48. Sut gallwn ni wella mynediad y cyhoedd at ddogfennau'r llys a chryfhau'r prosesau ar gyfer cael gafael arnynt ar draws yr awdurdodaethau?
49. A ddylid defnyddio rheolau gwahanol ar gyfer ceisiadau drwy gyfryngau newyddion achrededig, neu at ddibenion ymchwil ac ystadegol?
50. Weithiau gall ceisiadau gan rai nad ydynt yn barti fod ar gyfer nifer o ddogfennau ar draws nifer o lysoedd. Sut y dylem hwyluso'r mathau hyn o geisiadau a gwella'r broses o ddsbarthu swmp o ddogfennau llys sydd ar gael i'r cyhoedd?

Mynediad at ddata ac ailddefnyddio

Mae'r system gyfiawnder yn mynd drwy gyfnod o newid cyflym a helaeth gyda Rhaglen Ddiwygio GLITEF yn ganolog i'r trawsnewid hwn. Drwy foderneiddio llysoedd a thriwlysoedd, gallwn gasglu gwybodaeth fanylach am ddefnyddwyr a phrosesau. Drwy hwyluso mynediad i'r cyhoedd ac ailddefnyddio'r data hwn, gallwn wella dealltwriaeth o'r system gyfiawnder, gwella tryloywder, ac annog ymchwil ac arloesedd.

Gellir rhoi data sy'n deillio o'r system gyfiawnder mewn gwahanol gategoriâu ac mae'n cynnwys data defnyddwyr llysoedd a thriwlysoedd, data lefel achosion, gwybodaeth weinyddol, a data cyfreithiol sylfaenol. Mae'r mathau o ddata sy'n perthyn i'r categorïau hyn yn cynnwys dyfarniadau, boddhad defnyddwyr, canlyniadau, datganiadau achos, gorchmynion, manylion cyhuddiad neu hawliad, rhestrau, ple a gofnodir, trawsgrifiadau, deddfwriaeth, dyddiadau gwrandawiaid, sylwadau deddfrydu, enwau partïon a chynrychiolwyr, ac enwau barnwyr. Nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr ac mae llawer o fathau eraill o ddata sy'n cael eu casglu a'u prosesu ar draws y system gyfiawnder. Mae sut y gellir cael gafael ar y data hwn a'i rannu â'r cyhoedd wedi'i nodi mewn deddfwriaeth, cyfraith achosion, rheolau gweithdrefnol a chanllawiau adrannol.

Mae gwella mynediad at ddata yn hanfodol i wella dealltwriaeth a hyder y cyhoedd yn y system gyfiawnder ac i alluogi arloesedd. Ynghyd â GLITEF a'r farnwriaeth, rydym wedi cyflwyno newidiadau i hwyluso mynediad at y data hwn a'i ailddefnyddio. Mae hyn yn cynnwys Panel Mynediad Data (DAP) diwygiedig GLITEF a chreu'r Uwch Banel Llywodraethu Data (SDGP). Y Bwrdd Llywodraethu Mynediad Data sy'n gwneud penderfyniadau ynghylch mynediad at ddata'r Weinyddiaeth Gyfiawnder ac mae penderfyniadau ynghylch rhyddhau dogfennau'n cael eu gwneud gan y llys neu'r triwlyso perthnasol.

Mae'r DAP yn hwyluso mynediad at wybodaeth ar lefel achosion, cofnodion achosion hanesyddol a data arolygon i gefnogi cynigion ymchwil ar feysydd diddordeb y Weinyddiaeth Gyfiawnder a GLITEF. Mae hyn yn cynnwys cynigion sy'n archwilio dysgu peiranyddol a dulliau newydd eraill o ymchwil feintiol. Dim ond ar ôl gwneud cais llwyddiannus y caniateir mynediad at rai mathau o ddata drwy'r DAP. Mae ymgeiswyr sy'n gofyn am ddogfennau a ddelir gan lys yn cael eu cyfarwyddo gan y DAP i ofyn amdanynt gan y llys perthnasol. Yna, efallai y bydd yn rhaid i ymgeiswyr gyflwyno ffurflen i'r llys a thalu ffi. Gellir dod o hyd i faterion yn ymwneud â mynediad at ddogfennau llys o dan yr adran 'mynediad at ddogfennau a gwybodaeth llys' yn y cais hwn am dystiolaeth.

Ar adegau, gall y DAP dderbyn ceisiadau newydd neu ddadleuol. Cyfeirir y rhain at y SDGP am gyngor. Mae'r SDGP yn cynnwys swyddogion y llywodraeth, y farnwriaeth ac arbenigwyr ar lywodraethu data, sy'n darparu cyngor ac arweiniad annibynnol ar faterion

data newydd a dadleuol. Gall y Weinyddiaeth Gyfiawnder, GLITEF a'r farnwriaeth gyfeirio materion at y SDGP ac mae un o'i hegwyddorion arweiniol yn cynnwys cyfiawnder agored. Yn ogystal â diwygiadau llywodraethu ar fynediad at ddata, mae cyflwyno Find Case Law a threfn drwyddedu newydd wedi annog aildefnyddio dyfarniadau cyhoeddedig a'r data sydd ynddynt.

Wrth i ni ystyried y ffyrdd y gallwn wella mynediad ac aildefnyddio data, rhaid i ni gydbwysu'r manteision â'r risgiau o gamddefnyddio a'r effaith y gall hyn ei chael ar weinyddu cyfiawnder, annibyniaeth y farnwriaeth a hyder y cyhoedd yn y system gyfiawnder. Felly, rydym am brofi eich barn ar fynediad at ddata a'i aildefnyddio i lywio datblygiad polisi a gwasanaeth yn y dyfodol.

Cwestiynau am fynediad at ddata ac aildefnyddio

- 51.** At ba ddibenion y dylai data sy'n deillio o'r system gyfiawnder gael ei rannu a'i aildefnyddio gan y cyhoedd?
- 52.** Sut gallwn ni gefnogi mynediad at ac aildefnyddio data sy'n deillio o'r system gyfiawnder yn gyfrifol?
- 53.** Pa fathau o aildefnyddio data ddylen ni fod yn eu hannog? Rhowch enghreifftiau.
- 54.** Beth yw'r rhwystr mwyaf i gael gafael ar ddata a'i aildefnyddio?
- 55.** Oes gennych chi unrhyw dystiolaeth am gamsyniadau cyffredin ynghylch y defnydd o ddata gan drydydd partïon? A oes enghreifftiau o sut y gellir lliniaru'r rhain?
- 56.** Oes gennych chi dystiolaeth neu brofiad i ddangos sut mae deallusrwydd artiffisial (AI) yn cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd mewn perthynas â data cyfiawnder? Defnyddiwch eich diffiniad eich hun o'r term.
- 57.** Mae'r Llywodraeth wedi cyhoeddi cyngor agnostig i'r sector yn ystod y blynyddoedd diwethaf ar ddefnyddio deallusrwydd artiffisial. Pa ganllawiau hoffech chi eu gweld yn cael eu darparu'n benodol ar gyfer y sefydliad cyfreithiol? Yn eich barn chi, a ddylai hyn gael ei ddarparu gan y llywodraeth neu reoleiddwyr y gwasanaethau cyfreithiol?

Addysg gyfreithiol gyhoeddus

Yn ei ddiffiniad llawn, mae cyfiawnder agored yn golygu sicrhau bod gan y cyhoedd ddealltwriaeth foddhaol o'r broses gyfreithiol drwy roi mynediad i ddinasyddion at achosion, data, cyngor a gwybodaeth. Mae addysg gyfreithiol gyhoeddus (PLE) yn ceisio rhoi ymwybyddiaeth, gwybodaeth a dealltwriaeth i'r cyhoedd o'r system gyfiawnder. Mae'n cynnwys amrywiaeth o weithgareddau fel ymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth, darparu gwybodaeth neu adnoddau am faterion cyfreithiol ac ymweliadau/gweithgareddau llysoedd a thribiwnlysoedd (e.e. treialon ffug ac ymarferion chwarae rôl).

Mae PLE yn sicrhau bod y cyhoedd yn ymwybodol o'u hawliau, yn ogystal â rhoi'r sgiliau a'r hyder iddynt gael mynediad at gyfiawnder. Felly, mae cynnal lefel foddhaol o PLE yn agwedd bwysig ar gynnal cyfiawnder agored.

Mae PLE hefyd yn ceisio sicrhau bod y cyfryngau a'r cyhoedd yn ymwybodol o'r rheolau sydd ar waith i ddiogelu gweinyddu cyfiawnder yn deg. Mae hyn yn cynnwys, er enghraifft, gwneud y cyfryngau a'r cyhoedd yn ymwybodol o'r camau sy'n gysylltiedig â dirmygu'r llys, ac sydd felly mewn perygl o ddylanwadu'n annheg ar achos llys. Er enghraifft, yn ddiweddar cynhaliodd Swyddfa'r Twrnai Cyffredinol ymgyrch PLE 'Meddyliwch Cyn Postio', ynghyd ag enghreifftiau o negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasol a allai beryglu achosion llys. Rydym yn gofyn am farn ar sut y gall y llywodraeth gefnogi PLE ymhellach, a sut y gallwn weithio gydag eraill i'w hwyluso.

Cwestiynau am addysg gyfreithiol gyhoeddus

58. Ydych chi'n meddwl bod gan y cyhoedd ddealltwriaeth ddigonol o'n system gyfiawnder, gan gynnwys materion allweddol fel dirmyg llys? Rhwch y rhesymau dros eich ateb.
59. Ydych chi'n credu bod y llywodraeth yn llwyddo i wneud y cyhoedd yn ymwybodol pan fydd datblygiadau neu brosesau newydd yn cael eu gwneud mewn perthynas â'r system gyfiawnder?
60. Yn eich barn chi, beth yw'r prif fylchau yn nealltwriaeth y cyhoedd o'r system gyfiawnder?
61. Ydych chi'n meddwl bod digon o wybodaeth ar gael ar hyn o bryd i helpu'r cyhoedd i lywio drwy'r system gyfiawnder/ceisio cyfiawnder?
62. Ydych chi'n credu bod rôl i dechnolegau digidol o ran cefnogi PLE i helpu pobl i ddeall a datrys eu hanghydfodau cyfreithiol? Esboniwch eich ateb.

- 63.** Ydych chi'n credu mai'r llywodraeth sydd yn y sefyllfa orau i wella gwybodaeth am y system gyfiawnder? Rhowch y rhesymau dros eich ateb.
- 64.** Pwy arall ydych chi'n meddwl all helpu i wella gwybodaeth am y system gyfiawnder?
- 65.** Pa ddulliau, yn eich barn chi, sydd fwyaf effeithiol ar gyfer gwella gwybodaeth y cyhoedd am y system gyfiawnder e.e. ymgyrchoedd y llywodraeth, y cwricwlwm ysgol, diwrnodau agored llysoedd a thribiwnlysoedd ac ati?

Holiadur

Byddem yn croesawu ymatebion i'r cwestiynau canlynol sydd wedi'u cynnwys yn y papur ymgynghori hwn.

- 1. Eglurwch beth mae egwyddor cyfiawnder agored yn ei olygu yn eich barn chi.**
- 2. Eglurwch a ydych chi'n teimlo bod pwerau barnwrol annibynnol yn cael eu gwneud yn glir i'r cyhoedd, ac unrhyw farn arall sydd gennych am y pwerau hyn.**
- 3. Beth yw eich barn am ba mor agored a thryloyw yw'r system gyfiawnder ar hyn o bryd?**
- 4. Beth yw'r ffordd orau i ni barhau i ymgysylltu â'r cyhoedd ac arbenigwyr ar ddatblygu a gweithredu polisi cyfiawnder agored ar ôl i'r cais hwn am dystiolaeth ddod i ben?**
- 5. A oes materion polisi penodol o fewn cyfiawnder agored y dylem roi blaenoriaeth i ymgysylltu â'r cyhoedd yn eu cylch?**
- 6. A yw'n ddefnyddiol i chi bod rhestrau llysoedd a thribiwnlysoedd yn cael eu cyhoeddi ar-lein a beth ydych chi'n defnyddio'r wybodaeth hon ar ei gyfer?**
- 7. Ydych chi'n credu y dylid cael unrhyw gyfyngiadau ar ba wybodaeth y dylid ei chynnwys yn y rhestrau cyhoeddedig hyn (er enghraifft, enwi pob parti)?**
- 8. Eglurwch a ydych chi'n teimlo y gellid gwella'r ffordd y mae cyfyngiadau adrodd yn cael eu rhestru ar hyn o bryd.**
- 9. Ydych chi'n bwriadu neu ydych chi wrthi'n datblygu gwasanaethau neu nodweddion newydd ar sail mynediad at restrau'r llys cyhoeddus? Os felly, i bwy ydych chi'n ei ddarparu a pham mae ganddynt ddiddordeb yn y data hwn?**
- 10. Pa wasanaethau neu nodweddion fydddech chi'n eu datblygu pe bai rhestrau cyfryngau ar gael (yn amodol ar drwyddedu priodol ac unrhyw gytundebau neu drefniadau eraill y mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn eu hystyried yn angenrheidiol) ar yr amod bod y gwasanaethau neu'r nodweddion dan sylw at ddefnydd aelodau achrededig o'r cyfryngau yn unig?**
- 11. Pe bai rhestrau cyfryngau ar gael (yn amodol ar drwyddedu priodol ac unrhyw gytundebau neu drefniadau eraill y mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn eu hystyried yn angenrheidiol) ar gyfer defnyddio sefydliadau trydydd parti i ddefnyddio a datblygu gwasanaethau neu nodweddion fel y gwelant orau, sut**

byddech chi'n defnyddio'r data hwn, i bwy fyddech chi'n ei ddarparu, a pham mae ganddynt ddiddordeb yn y data hwn?

- 12. Ydych chi'n ymwybodol bod gwasanaeth FaCT yn eich helpu i ddod o hyd i'r manylion cyswllt cywir ar gyfer llysoedd a thribiwnlysoedd unigol?**
- 13. A oes unrhyw beth arall y gallai gwasanaethau digidol fel FaCT ei gynnig i'ch helpu i gael mynediad at lysoedd a thribiwnlysoedd?**
- 14. Beth yw eich barn gyffredinol am fanteision a risgiau caniatáu ar gyfer arsylwi o bell a ffrydio achosion llys agored yn fyw ac ar gyfer beth gellid ei ddefnyddio yn y dyfodol?**
- 15. Ydych chi'n credu y dylid caniatáu i bob aelod o'r cyhoedd arsylwi gwrandawiadau llys a thribiwnlys agored o bell?**
- 16. Ydych chi'n credu y dylai'r cyfryngau allu mynychu pob achos llys agored o bell?**
- 17. Ydych chi'n credu y dylai pob gwrandawriad llys agored ganiatáu ar gyfer ffrydio byw ac arsylwi o bell? A fyddech chi'n eithrio unrhyw fathau o wrandawiadau llys rhag ffrydio byw ac arsylwadau o bell?**
- 18. A fyddech chi'n gosod cyfyngiadau ar adrodd ar achosion llys? Os felly, pa achosion a pham?**
- 19. Ydych chi'n meddwl bod unrhyw fathau o adeiladau a fyddai'n arbennig o ddefnyddiol i wneud safle ffrydio byw dynodedig?**
- 20. Sut gallai'r broses o gael mynediad at wrandawriad arsylwi o bell fod yn haws i'r cyhoedd a'r cyfryngau?**
- 21. Yn eich barn chi, beth yw manteision darlledu achosion llys i'r cyhoedd?**
- 22. Rhowch fanylion y mathau o achosion llys y credwch y dylid eu darlledu a pham y byddai hyn o fudd i'r cyhoedd? A oes unrhyw fathau o achosion na ddylid eu darlledu?**
- 23. Ydych chi'n meddwl bod unrhyw risgiau i ddarlledu achosion llys?**
- 24. Beth yw eich barn am waharddiad 1925 ar ffotograffiaeth a gwaharddiad 1981 ar recordio sain yn y llys ac a ydynt yn dal yn addas i'r diben yn yr oes fodern? A oes technolegau eraill sy'n dod i'r amlwg lle dylem ystyried ein polisi mewn perthynas â defnydd yn y llys?**
- 25. Yn eich barn chi, beth allai'r llywodraeth ei wneud i wella tryloywder y SJP?**

26. Sut gellid gwella'r broses o gyhoeddi achosion SJP ar hyn o bryd (ar CaTH)?
27. Yn eich profiad chi, ydy'r dyfarniadau llys neu benderfyniadau'r tribiwnlys sydd eu hangen arnoch chi ar gael i'r cyhoedd ar-lein? Rhowch enghreifftiau yn eich ymateb.
28. Mae'r llywodraeth yn bwriadu cyfuno dyfarniadau llys a phenderfyniadau tribiwnlysoedd a gyhoeddir ar hyn o bryd ar safleoedd eraill y llywodraeth yn FCL, er mwyn i'r holl ddyfarniadau a phenderfyniadau fod ar gael ar un gwasanaeth, ar gael mewn fformat y gellir ei ddarllen gan beiriant ac yn amodol ar system drwyddedu FCL. Byddai safleoedd eraill y llywodraeth wedyn yn cael eu cau. Oes gennych chi unrhyw farn am hyn?
29. Mae'r llywodraeth yn gweithio tuag at gyhoeddi cofnod cyflawn o ddyfarniadau llys a phenderfyniadau tribiwnlys. Pa ddyfarniadau neu benderfyniadau hoffech chi eu gweld yn cael eu cyhoeddi ar-lein nad ydynt ar gael ar hyn o bryd? Pa ddyfarniadau neu benderfyniadau na ddylid eu cyhoeddi ar-lein a'u darparu ar gais yn unig? Esboniwch pam
30. Ar wahân i ddyfarniadau llys a phenderfyniadau tribiwnlys, a oes cofnodion llys eraill y credwch y dylid eu cyhoeddi ar-lein a/neu ddylai fod ar gael ar gais? Os felly, esboniwch pam a sut.
31. Yn eich barn chi, sut gellir gwella'r broses o gyhoeddi dyfarniadau a phenderfyniadau er mwyn eu gwneud yn fwy hygyrch i ddefnyddwyr technolegau cynorthwyol a defnyddwyr sydd â gallu digidol cyfyngedig? Rhowch enghreifftiau yn eich ymateb.
32. Yn eich profiad chi, a yw cyhoeddi dyfarniadau neu benderfyniadau tribiwnlys wedi cael effaith negyddol ar ddefnyddwyr y llys neu aelodau ehangach o'r cyhoedd?
33. Pa wasanaethau neu nodweddion newydd sy'n seiliedig ar fynediad at ddyfarniadau llys a phenderfyniadau tribiwnlys ydych chi'n bwriadu eu datblygu neu ydych chi'n wrthi yn eu datblygu? Pwy yw'r gynulleidfa darged? (Er enghraifft, cyfreithwyr, busnesau, defnyddwyr llys, defnyddwyr eraill).
34. Ydych chi'n defnyddio dyfarniadau o diriogaethau eraill i ddatblygu eich gwasanaethau/cynnyrch? Rhowch fanylion
35. Ar ôl blwyddyn o weithredu, rydym yn adolygu'r Drwydded Drafodol. Yn eich profiad chi, sut mae'r Llys Agored a/neu'r Drwydded Drafodol wedi cefnogi neu gyfyngu ar eich gallu i ailddefnyddio dyfarniadau llys neu benderfyniadau

tribiwnlys. Sut mae hyn yn cymharu â'ch profiad cyn mis Ebrill 2022? Rhowch enghreifftiau yn eich ymateb.

36. Wrth ddisgrifio'r defnydd o'r Drwydded Drafodol, rydym yn defnyddio'r term 'dadansoddi cyfrifiadurol'. Yr ydym wedi clywed gan randdeiliaid, fodd bynnag, fod y term yn rhy amwys. Pa derm(au) fyddai orau gennych chi? Esboniwch eich ateb.
37. Ydych chi wedi chwilio am benderfyniadau tribiwnlys ar-lein ac os ydych chi wedi gwneud hynny, beth oedd eich profiad, a beth oedd eich rheswm dros chwilio?
38. Ydych chi'n meddwl y dylai penderfyniadau tribiwnlys ymddangos mewn peiriannau chwilio ar-lein fel Google?
39. Pa wybodaeth sydd ei hangen i'w chynnwys mewn cofrestr o benderfyniadau a gyhoeddir? Pa fesurau diogelu fyddai eu hangen?
40. Ydych chi'n meddwl y dylid cyhoeddi sylwadau dedfrydu barnwrol ar-lein / ar gael ar gais? Os felly, ym mha fformat ydych chi'n meddwl y dylent fod ar gael? Esboniwch eich ateb.
41. Fel rhywun nad yw'n barti i'r achos, at ba ddiben y byddech chi'n ceisio cael gweld dogfennau'r llys neu'r tribiwnlys?
42. Ydych chi (heb fod yn barti) yn gwybod pryd y dylech wneud cais i'r llys neu'r tribiwnlys am fynediad at ddogfennau a phryd y dylech wneud cais i sefydliadau eraill?
43. Ydych chi (heb fod yn barti) yn gwybod ble i edrych neu â phwy i gysylltu i ofyn am gael gweld dogfennau'r llys neu'r tribiwnlys?
44. Ydych chi (heb fod yn barti) yn gwybod pa fathau o ddogfennau llys neu dribiwnlys sy'n cael eu cadw fel arfer?
45. Beth yw'r prif broblemau rydych chi (heb fod yn barti) wedi dod ar eu traws wrth geisio cael mynediad at ddogfennau llys neu dribiwnlys?
46. Sut gallwn ni egluro'r rheolau a'r canllawiau ar gyfer ceisiadau gan rai nad ydynt yn barti i gael gafael ar ddeunydd a ddarperir i'r llys neu'r tribiwnlys?
47. Ar y lleiaf, pa ddeunydd a ddarperir i'r llys gan bartïon mewn achos ddylai fod ar gael i'r rhai nad ydynt yn bartïon?

48. Sut gallwn ni wella mynediad y cyhoedd at ddogfennau'r llys a chryfhau'r prosesau ar gyfer cael gafael arnynt ar draws yr awdurdodaethau?
49. A ddylid defnyddio rheolau gwahanol ar gyfer ceisiadau drwy gyfryngau newyddion achrededig, neu at ddibenion ymchwil ac ystadegol?
50. Weithiau gall ceisiadau gan rai nad ydynt yn barti fod ar gyfer nifer o ddogfennau ar draws nifer o lysoedd. Sut y dylem hwyluso'r mathau hyn o geisiadau a gwella'r broses o ddsbarthu swmp o ddogfennau llys sydd ar gael i'r cyhoedd?
51. At ba ddibenion y dylai data sy'n deillio o'r system gyfiawnder gael ei rannu a'i aildefnyddio gan y cyhoedd?
52. Sut gallwn ni gefnogi mynediad at ac aildefnyddio data sy'n deillio o'r system gyfiawnder yn gyfrifol?
53. Pa fathau o aildefnyddio data ddylen ni fod yn eu hannog? Rhowch enghreifftiau.
54. Beth yw'r rhwystr mwyaf i gael gafael ar ddata a'i aildefnyddio?
55. Oes gennych chi unrhyw dystiolaeth am gamsyniadau cyffredin ynghylch y defnydd o ddata gan drydydd partïon? A oes enghreifftiau o sut y gellir lliniaru'r rhain?
56. Oes gennych chi dystiolaeth neu brofiad i ddangos sut mae deallusrwydd artifffisial (AI) yn cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd mewn perthynas â data cyfiawnder? Defnyddiwch eich diffiniad eich hun o'r term.
57. Mae'r Llywodraeth wedi cyhoeddi cyngor agnostig i'r sector yn ystod y blynyddoedd diwethaf ar ddefnyddio deallusrwydd artifffisial. Pa ganllawiau hoffech chi eu gweld yn cael eu darparu'n benodol ar gyfer y sefydliad cyfreithiol? Yn eich barn chi, a ddylai hyn gael ei ddarparu gan y llywodraeth neu reoleiddwyr y gwasanaethau cyfreithiol?
58. Ydych chi'n meddwl bod gan y cyhoedd ddealltwriaeth ddigonol o'n system gyfiawnder, gan gynnwys materion allweddol fel dirmyg llys? Rhowch y rhesymau dros eich ateb.
59. Ydych chi'n credu bod y llywodraeth yn llwyddo i wneud y cyhoedd yn ymwybodol pan fydd datblygiadau neu brosesau newydd yn cael eu gwneud mewn perthynas â'r system gyfiawnder?
60. Yn eich barn chi, beth yw'r prif fylchau yn nealltwriaeth y cyhoedd o'r system gyfiawnder?

- 61. Ydych chi'n meddwl bod digon o wybodaeth ar gael ar hyn o bryd i helpu'r cyhoedd i lywio drwy'r system gyfiawnder/ceisio cyfiawnder?**
- 62. Ydych chi'n credu bod rôl i dechnolegau digidol o ran cefnogi PLE i helpu pobl i ddeall a datrys eu hanghydfodau cyfreithiol? Esboniwch eich ateb.**
- 63. Ydych chi'n credu mai'r llywodraeth sydd yn y sefyllfa orau i wella gwybodaeth am y system gyfiawnder? Rhowch y rhesymau dros eich ateb.**
- 64. Pwy arall ydych chi'n meddwl all helpu i wella gwybodaeth am y system gyfiawnder?**
- 65. Pa ddulliau, yn eich barn chi, sydd fwyaf effeithiol ar gyfer gwella gwybodaeth y cyhoedd am y system gyfiawnder e.e. ymgyrchoedd y llywodraeth, y cwricwlwm ysgol, diwrnodau agored llysoedd a thribiwnlysoedd ac ati?**

Diolch i chi am gymryd rhan yn yr ymgynghoriad hwn.

Amdanoch chi

Rhowch wybodaeth amdanoch chi yn yr adran hon

Enw llawn	
Teitl swydd neu ym mha rinwedd rydych yn ymateb i'r ymarfer ymgynghori hwn (e.e. aelod o'r cyhoedd ac ati.)	
Dyddiad	
Enw'r cwmni/sefydliad (os yw'n berthnasol):	
Cyfeiriad	
Cod post	
Os hoffech chi i ni gydnabod ein bod wedi derbyn eich ymateb, ticiwch y blwch hwn	<input type="checkbox"/> (ticiwch y blwch)
Y cyfeiriad y dylid anfon y gydnabyddiaeth iddo, os yw'n wahanol i'r uchod	

Os ydych chi'n cynrychioli grŵp, rhowch enw'r grŵp hwnnw i ni, os gwelwch yn dda, gyda disgrifiad cryno o'r bobl neu'r mudiadau rydych yn eu cynrychioli.

Manylion cyswllt/Sut i ymateb

Anfonwch eich ymateb erbyn 31 Hydref 2023 i'r:

E-bost: openjusticepolicy@justice.gov.uk

Cwynion neu sylwadau

Os oes gennych chi gwynion neu sylwadau ynghylch y broses ymgynghori, dylech gysylltu â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder gan ddefnyddio'r cyfeiriad uchod.

Copiau ychwanegol

Mae rhagor o gopiau papur o'r ymgynghoriad hwn ar gael o'r cyfeiriad hwn, ac mae hefyd ar gael ar-lein yn <https://consult.justice.gov.uk>.

Grwpiau cynrychioliadol

Gofynnir i grwpiau cynrychioliadol roi disgrifiad cryno o'r bobl a'r sefydliadau maent yn eu cynrychioli pan fyddant yn ymateb.

Cyfrinachedd

Mae'n bosibl y cyhoeddir neu y datgelir gwybodaeth a roddir wrth ymateb i'r ymgynghoriad hwn, gan gynnwys gwybodaeth bersonol, yn unol â'r trefniadau mynediad at wybodaeth (sef, yn bennaf, Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Deddf Diogelu Data 2018, y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004).

Os ydych am i ni drin yr wybodaeth a rowch i ni'n gyfrinachol, cofiwch, o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, fod Cod Ymarfer statudol ar waith y mae'n rhaid i awdurdodau cyhoeddus gydymffurfio ag ef. Mae hwn, ymhlith pethau eraill, yn ymwneud â dyletswyddau i gadw cyfrinachedd. Yng ngoleuni hyn, byddai'n help i ni petaech yn esbonio pam rydych o'r farn bod yr wybodaeth rydych wedi'i darparu yn gyfrinachol. Os cawn gais am ddatgelu'r wybodaeth, byddwn yn ystyried eich esboniad yn llawn, ond ni allwn sicrhau y gallwn gadw cyfrinachedd o dan bob amgylchiad. Ni fydd ymwadiad cyfrinachedd awtomatig a gynhyrchir gan eich system TG yn cael ei ystyried, ynddo'i hun, yn rhwymol gan y Weinyddiaeth.

Bydd y Weinyddiaeth yn prosesu eich data personol yn unol â'r Ddeddf Diogelu Data, a gan amlaf, bydd hyn yn golygu na chaiff eich data personol eu datgelu i drydydd partïon.

[leave blank – inside back cover]



© **Hawlfraint y Goron 2022**

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi ei drwyddedu o dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored v3.0 ac eithrio lle nodwyd fel arall. I weld y drwydded hon, ewch i:
nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3

Os ydym wedi nodi bod unrhyw wybodaeth o dan hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.